Neuadd Y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Caerfyrddin
SA19 6AF

ffon/Facs:
01558 824167

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824167

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson
clerk@llandeilo.gov.uk

[0185]Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo ddydd Mawrth 18 Mai am 7.30pm.

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng D. A. Jones (Maer/Cadeirydd), Cyng S. Burge, Cyng R. Bellamy (Dirprwy Faer), Cyng K, Day, Cyng I. Gwyn, Cyng C. Jenkins

Eraill: Cynghorydd Sir I. Jones, R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), C. A. Paterson (Clerc y Dref), Sgt N. Jones (Sarjant yr Heddlu)

6101: Ymddiheuriadau: Ni chafwyd rhai.

6102: Materion yr Heddlu. Yn gyffredinol mae trosedd yn isel. Yn y mis blaenorol yn Llandeilo bu 2 fân ymosodiad, 1 lladrad a 2 achos o ddwyn, 1 car yn cael ei ddwyn ac roedd achosion o greu niwed i gerbydau. Bu 2 ddamwain car angheuol.
Cytunwyd ar y lleoliadau ar gyfer y camerâu C. C. T. V.
Gofynnodd y Cyngor i Sarjant Jones os oedd hi'n bosibl gweld Cronfa ddata'r Heddlu a chael rhestr o holl ddamweiniau'r blynyddoedd diweddar yn Heol Rhosmaen o Ffairfach i gyffordd y gylchfan gyda'r A40. Dywedodd Sarjant Jones y buasai'n gweld os oedd hyn yn bosibl.
Dywedodd y Cyngor wrth Sarjant Jones am eu cynllun i osod adroddiadau digwyddiadau/achosion mewn siopau er mwyn dechrau casglu gwybodaeth am yr holl achosion ar Heol Rhosmaen ac i annog pobl i'w hysbysu.
Diolchodd y Maer i Sarjant Jones ar ran y Cyngor a gadawodd Sarjant Jones y cyfarfod.

6103: Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cyngor Llawn.

Cynigiwyd gan y Cyng I. Gwyn y dylai cofnodion y cyfarfod blaenorol gael eu trin fel cofnodion Pwyllgor Arbennig gan nad oedd cworwm.

Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo ddydd Mawrth 20 Ebrill 2004 am 7.30pm i fod yn gofnod cywir o'r cyfarfod.
Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy, ac eiliwyd gan y Cyng Burge. Cynigwyd bod y Cyngor yn derbyn yr holl argymhellion felly gan y Cyng Day ac eiliwyd gan y Cyng Bellamy.

6104:Materion yn codi.
Treuliodd y Cyng Jenkins y bore gyda Sarjant Clark gan glustnodi tri safle ar gyfer bracedi'r Camera C.C.T.V ac roedd y broses nawr yn symud ymlaen.

0185

6080: Cynigiodd y Cyng Bellamy y dylid prynu pecyn cymorth cyntaf a llyfr cofnodi damweiniau o Viking ar gyfer y caban.
6082: Cofgolofnau i fod yn Eitem Agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn

6105: Cofnodion y Pwyllgor Cyllid.

Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Mai 2004 fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy, ac eiliwyd gan y Cyng Jenkins.

Ystyriaeth yw'r dyraniad gyllidebol o'r hyn y mae Cynghorwyr yn meddwl sydd angen ei wneud yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Dyraniad y Gyllideb i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid.

6105: Y Neuadd Sirol.

Cafodd y Cyng Gwyn gyfarfod gyda E. G. Hughes i gael y diweddaraf ar y trafodaethau a gafwyd ynglŷn â dyfodol y Neuadd Sirol.

Y Swyddog Technegol i gynrychioli'r Cyngor ynghylch cyfarfodydd, trafodaethau ac ati gyda'r Pensaer.

6106: Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Mai 2004 fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw. Cynigiwyd gan y Cyng Day, ac eiliwyd gan y Cyng Burge.

6107: Materion yn codi. Rydym wedi cael e-bost ynglŷn a'r hen Dderwen o dan orchymyn cadwraeth ar safle newydd Llys Pencrug.

Y Cynghorydd Sir Jones i drafod gyda'r Adran Gwarchod Coed. Cynghorydd Day i ysgrifennu llythyr i ymateb i'r e-bost, yn dweud bod Cyngor y Dref yn ymchwilio.

Datblygodd ychydig o drafodaeth ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig

Oherwydd y trafferthion sy'n ymwneud ag ystyried y safle yn ei gyfanrwydd pan mae'r Cyngor ond yn cael cynlluniau am ambell i safle ar y tro – Cais am gyfarfod i drafod pryderon y Dref am y safle.

6108: Y Rheiliau a'r Meinciau. Mae'r meinciau nawr wedi cael eu disodli ac mae'r rhai yn eu lle yn llwyddiannus iawn. Mae amcangyfrifon dal i gael eu trefnu ynghylch disodli'r meinciau gyda rhai sy'n cydweddu i'r rheiliau.

Mae'r Swyddog Technegol wedi cael dyfynbris am Arfwisg Llandeilo Fawr boglynnog ar hysbyseb yn sôn am rôl y Cyngor i roi'r rheiliau yn eu lle, tua £600. Roedd y Cyngor o blaid, ond fe fuasent yn hoffi dyfynbrisiau pellach am amrywiaeth o feintiau i'w hystyried.

6109: Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a derbyniad y Maer..

Cynhelir y CCB Ddydd Mawrth 15 Mehefin 2004. O ganlyniad i'r Etholiadau ni fydd y CCB yn cael ei ohirio a bydd Derbyniad y Maer yn digwydd yng Ngwesty'r Hydd Gwyn am 7.30pm dydd Iau 24 Mehefin 2004.

Cyng Bellamy i wneud ymchwiliad ynghylch gosod Cadwyn y Cyngor ar golar defnydd, trwy Fattorini's.

6110: Y Sefydliad Cyhoeddus.
Roedd y Maer wedi mynychu cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Ddinesig yn ymweld â'r Sefydliad Cyhoeddus. Mae'r adeilad yn cael ei gadw gan yr ymddiriedolaeth ac ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel Clwb Snwcer, yn cael ei redeg gan Mr Bob Cash, Hen D 'r Ysgol, Capel Isaac.

6111: Adroddiad y Maer:

24/4	Cyfarfod R. Bellamy i lunio Disgrifiad Swydd a Hysbyseb Clerc y Dref.
24/4	Bowlio'r belen gyntaf yng Nghlwb Bowlio Llandeilo
26/4	Siaradwr Gwadd yn "The Inner Wheel"
27/4	Bwffe Tenovus
3/5	Cyfarfodydd Pwyllgorau
6/5	Cyfarfod gyda Dyffryn Cennen ynghylch Materion Traffig
7/5	Cyngerdd Cyfansoddwr Ifanc y Flwyddyn Dyfed.
10/5	Seremoni Mabwysiadu yng Ngorsaf Llandeilo Pm; cyfarfod gyda Rhian Phillips ynghylch arian amcan 1 am lwybr Treftadaeth y Dref.
12/5	Cyfarfod gyda Rhodri Thomas o BABTI, sydd wedi'u penodi i edrych ar faterion traffig yn Stryd Rhosmaen.
13/5	Rhestr fer i gyfarfod Clerc y Dref.
14/5	Cyfarfod gyda Nerys Lewis i lunio cais i'r yl Goleuadau.

Dyma adroddiad olaf y maer a rhoddwyd gwybod i'r Cyngor am ei apwyntiadau yn y dyfodol

21/5	Cyngerdd yn y Gerddi Botaneg
24/5	Gwestai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nh 'r Drenewydd.Tim Giles Tour link i drafod ariannu taflen ddigwyddiadau.
26/5	Cyfweld Clerc y Dref.
5/6	Cinio Pêl-droed
11/6	Cinio Gwerinwr
14/6	Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (AGM)

6112: G yl Cerdd a Blodau.
Roedd y maer wedi cael ei wahodd i arwain digwyddiad yn yr yl Cerdd a Blodau ddydd Sadwrn 10 Gorffennaf 2004.

Clerc i dalu Grantiau'r yl fel y cytunwyd yn y Pwyllgor Cyllid.

6113: Gohebiaeth.

Mae C. S. C. yn cynnal ei Ginio Elusennol blynyddol 11 Mehefin 2004.

[0188]Cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn i'w gynnal ar 14 Mehefin fydd yr AGM. Hwn fydd cyfarfod olaf rhai o'r Cynghorwyr. Mynegodd y Maer ei ddiolch ef a'r Cyngor i Sid Burge am nifer o flynyddoedd o wasanaeth tryw a dibynnol i'r Cyngor. Diolchodd y Maer hefyd i Gynghorydd Day am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Cyngor.

Y Clerc i baratoi 12 set llawn o ddogfennau'r Cyngor, a pharatoi datganiad o swyddi.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Jones ei fod wedi mynychu Cyfarfod Cronfa adeilad yn Nhregib ynghylch datblygu'r pwll nofio arfaethedig. Mae'n annhebygol y bydd y pwll wedi ei gwblhau o fewn 2 flynedd. Mynychodd y Cynghorydd Jones hefyd gyfarfod ynghylch Hen Neuadd y Farchnad. Y cynnig oedd i ddatblygu 4 uned, un yr un i'w rhentu i Menter Iaith, a Ceramic ac eraill i'w rhentu'n fasnachol. Fe fyddant yn cael eu gosod o gwmpas cyntedd canolog ar gyfer y posibilrwydd o gynnal dyddiau marchnad.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm.

0188